



Swyddog Hwb Rygbi

Cyfeirnod y Swydd: YYGC00182W1RDE
Lleoliad: Ysgol Glan Clwyd
Cyflog: Gradd 5 (£16,559 - £19,075)
Oriau: 37awr yr wythnos
Math o gytundeb: 3 blynedd, Tymor Ysgol yn unig

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y Swydd uchod yn yr ysgol hapus a llwyddiannus hon.

Dyma gyfle cyffroes i gyfrannu at ddatblygiad rygbi yn Ysgol Glan Clwyd a'r dalgylch. Mae'r ysgol yn falch iawn o'u cyflawniadau yn y byd chwaraeon ac yn edrych ymlaen at ddatblygu rygbi ymhellach yn yr ardal drwy'r fenter hon.

Mewn partneriaeth agos efo'r Undeb Rygbi Cymru, rôl y swydd ydi hyrwyddo datblygiad a'r arfer o chwarae rygbi'r undeb yn yr ysgol ac mewn clybiau lleol. Annog cymaint o ddisgyblion â phosibl i gymryd rhan mewn rygbi allgyrsiol. Cyflwyno Cwricwlwm Rygbi URC sy'n darparu ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, mae'n rhaid i chi gymryd nad ydych wedi'ch rhoi ar y rhestr fer am gyfweliad.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: Dydd Mawrth 4ydd Rhagfyr, 2018

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos i'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweliad.

This Advert is for a Rugby Hub Officer at Ysgol Glan Clwyd for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.



CYNGOR SIR DDINBYCH

SWYDD-DDISGRIFIAD

Teitl y Swydd: Swyddog Hwb Rygbi

Graddfa: 5

Gwasanaeth: Dysgu Gydol Oes

Maes Gwasanaeth: Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy

Yn gyfrifol i: Arweinydd Maes Addysg Gorfforol

Swydd I.D / Dyddiad cyhoeddi: 02712



Pwrpas y Swydd

Hyrwyddo datblygiad a'r arfer o chwarae rygbi'r undeb yn yr ysgol ac mewn clybiau lleol. Annog cymaint o ddisgyblion â phosibl i gymryd rhan mewn rygbi allgyrsiol. Cyflwyno cwricwlwm rygbi URC sy'n darparu ar gyfer disgyblion o bob gallu.

Prif Gyfrifoldebau

- dan arweiniad y Pennaeth Addysg Gorfforol, cyflwyno holl elfennau'r rhaglen rygbi gan sicrhau bod yr holl feini prawf yn cael eu bodloni fel rhan o'r Cytundeb Ariannu Swyddog Rygbi.
- Cefnogi rhaglenni academaidd y Sefydliad drwy ddatblygu rygbi sy'n addas i oedran
- Defnyddio'r rhaglen rygbi i ddatblygu dinasyddion da
- Ategu gwaith yr athrawon drwy gymryd cyfrifoldeb am weithgareddau rygbi ar draws y Sefydliad, yn enwedig rhoi cyfleoedd i ddisgyblion hyfforddi a chwarae'r gêm, ym mhob gwahanol ffurf, yn ystod amser allgyrsiol.
- Cydlynu a hyrwyddo'r broses o drosglwyddo chwaraewyr i'r clwb rygbi.
- Datblygu Rhaglen Arweinyddiaeth URC trwy'r Fagloriaeth Gymreig.
- Cefnogi rygbi cynrychiadol ysgolion ar lefel dan 15.
- Cefnogi Rhaglenni URC y tu allan i amser tymor
- Sefydlu perthynas gadarnhaol gyda phobl ifanc, gan roi blaenoriaeth i anghenion dysgu unigol er mwyn arwain a chefnogi disgyblion drwy'r broses o gyflawni eu llwybr dysgu dewisol yn llwyddiannus.
- Rhoi adborth a pharatoi adroddiadau gwrthrychol a chywir ar gyflawniadau chwaraewyr a chofnodi cynnydd a chyflawniad y chwaraewyr hynny.
- Hybu cynnwys a derbyn disgyblion mewn gweithgareddau rygbi gan roi pwyslais arbennig ar hyrwyddo cyfranogiad merched.
- Cefnogi chwaraewyr yn gyson wrth adnabod ac ymateb i anghenion unigol.
- Gweithio'n agos â staff perfformiad a datblygiad rhanbarthol URC.
- Cefnogi'r ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol gyda chynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rygbi
- Mynychu'r holl ddigwyddiadau hyfforddi DPP a chyfarfodydd perthnasol a gynhelir gan URC ar gais y Pennaeth Addysg Gorfforol/Cyswllt Penodedig URC.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd a gwarchod data, a helpu i'w datblygu, a mynegi unrhyw bryderon wrth berson priodol.

Cyfrannu at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol y Sefydliad.



Perthnasau Allweddol + Adnoddau / Offer / Deunyddiau

- Y Pennaeth
- Pennaeth Addysg Gorfforol
- Rheolwr Datblygu Rhanbarthol URC
- Staff perfformiad URC
- Ysgolion uwchradd lleol
- Clwb rygbi lleol
- Ysgolion Cynradd sy'n Bwydo'r Ysgol

Goruchwyllo / Rheoli Pobl

Goruchwyllo, hyfforddi a datblygu staff fel bo'n briodol

Gwybodaeth, Sgiliau, Hyfforddiant a Phrofiad

Profiad o weithio mewn disgyblaeth datblygu rygbi.

Sgiliau rhifedd / llythrennedd da iawn

Defnyddio offer TGCh / adnoddau arbenigol eraill yn effeithiol.

Dealltwriaeth lawn o'r polisiau / codau ymarfer perthnasol ac ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol

Yn gallu ymateb yn dda i blant ac oedolion

Yn gallu gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, deall swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ysgol a'ch lle chi o fewn y rhain

Yn gallu i hunan werthuso anghenion dysgu a chwilio'n weithgar am gyfleoedd dysgu

Amodau Gwaith Arbennig

Ddim yn berthnasol

Archwiliadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol

Gliriad Gwasanaeth Datgelu ac Atal, Archwiliad lechyd, Geirda Boddhaol

Os oes angen eglurhad pellach ar wiriadau DBS, cysylltwch â Cyswllt AD am gyngor



CYNGOR SIR DDINBYCH

MANYLEB PERSON

Mae'r Fanyleb yn nodi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn hanfodol er mwyn ymgymryd â dyletswyddau'r swydd yn effeithiol. Caiff ei defnyddio wrth lunio rhestr fer ac ar gyfer y broses o gyfweid am y swydd hon. Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut rydych yn bodloni'r meini prawf hyn. Byddwch ddim ond yn cael eich cynnwys ar y rhestr fer os ydych yn bodloni pob un o'r meiniprawf hanfodol (â'r meini prawf dymunol lle bo'n berthnasol).

Teitl y Swydd: Swyddog Hwb Rygbi
Gwasanaeth: Dysgu Gydol Oes
Graddfa: 5

<u>MEINI PRAWF</u>	<u>HANFODOL</u>	<u>DYMUNOL</u>	<u>DULL ASESU</u> Ffurflen Gais / Cyfweliad / Cyflwyniad / Geirda ac ati
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> O leiaf 12 mis o brofiad o weithio mewn disgyblaeth datblygu rygbi. Profiad o weithio gyda phlant Y gallu i arddangos lefel dda o wybodaeth a chymhwysedd o fewn amgylchedd hyfforddi Dealltwriaeth o anghenion hyfforddwr o fewn yr amgylchedd cymunedol Sgiliau rhyngpersonol a rheoli perthynas cryf. 		Ffurflen Gais Cyfweliad
Sgiliau a Chymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> Cymhwyster ffurfiol neu brofiad o weithio mewn amgylchedd rygbi neu addysg. Sgiliau TG rhagorol, yn enwedig wrth ddefnyddio 	<ul style="list-style-type: none"> Sgiliau TG rhagorol, yn enwedig wrth ddefnyddio Microsoft Word, Excel a PowerPoint. Dealltwriaeth o egwyddorion 	Ffurflen gais Tystysgrifau Cyfweliad



	<p>Microsoft Word, Excel a PowerPoint</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol yn hanfodol • Cymhwyster hyfforddi rygbi, cymhwyster URC lefel 2 o leiaf (neu'r gallu i weithio tuag at lefel 2) 	addysgu gan gynnwys asesu.	
Cymwyseddau Allweddol	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaith fîm ac effaith bersonol • Unigolyn hunan-gymhellol, egniol • Cyfathrebu a Dylanwadol • Gallu i gyfathrebu'n dda gyda phlant ac oedolion • Gallu i hyfforddi trwy gyfrwng y Gymraeg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu i yrru bws mini'r ysgol (trwydded yrru D1) • Synnwyr digrifwch. 	Ffurflen gais Cyfweliad
Arall	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ofynnol cael trwydded yrru ddilys i yrru yn y DU. • Mae'r rôl hon yn ddarostyngedig i wiriad manwl gan y SCT. • Dealltwriaeth o gyfleoedd cyfartal mewn cyflogaeth a chwaraeon ac ymrwymiad i sicrhau hynny. • Dealltwriaeth o gyfrifoldeb personol wrth gydymffurfio â pholisiau a threfniadau lechyd a Diogelwch y Sefydliad. 		Cyfweliad